

Briff Barnardo's Cymru ar gyfer Ymgeiswyr Etholiad Lleol

Briff Etholiad Lleol
5 May 2022



Cefndir Barnardo's Cymru

Mae Barnardo's Cymru wedi bod yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf yn y wlad. Ar hyn o bryd, rydym yn rhedeg mwy na 60 o wasanaethau amrywiol ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Bob blwyddyn, rydym yn cefnogi mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn rheolaidd. Ein nod yw sicrhau canlyniadau gwell i fwy o blant drwy ddarparu'r cymorth sydd ei angen i sicrhau teuluoedd cryfach, plentyndod mwy diogel a dyfodol cadarnhaol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'n gwaith uniongyrchol i ymgychu i wella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy hyrwyddo newid cadarnhaol mewn polisi ac arfer. Credwn gyda'r gred, y cymorth a'r gefnogaeth gywir, gall pob plentyn gyflawni ei botensial.

Gofynion polisi Barnardo's Cymru ar gyfer etholiadau lleol 2022

Mae ein galwadau polisi ar gyfer etholiadau lleol 2022 yn adlewyrchu ein nod strategol i greu teuluoedd cryfach, plentyndod mwy diogel, a dyfodol cadarnhaol. Rydym am i ymgeiswyr etholiad lleol sy'n sefyll ar gyfer yr etholiad lleol ar 5 Mai 2022 weithredu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

Cefnogi ffoaduriaid o Wcráin

Mae'r gwrthdaro a thrais parhaus yn Wcráin wedi gorfodi teuluoedd i adael eu cartrefi ac i chwilio am ddiogelwch, gyda llawer yn cyrraedd y DU. Bydd gan awdurdodau lleol ran hollbwysig i'w chwarae, ac rydym am i gynrychiolwyr etholedig lleol fod yn ymwybodol o'r camau y mae Barnardo's yn eu cymryd i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin a'r cymorth y gallwn ei ddarparu. Yng Nghymru, rydym yn trafod gyda'r sector gwirfoddol a Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gall Barnardo's ddarparu cymorth.

Yn ystod y cyfnod trallodus ac ansicr hwn, bydd angen cymorth parhaus ar blant ac oedolion. Mewn ymateb i hyn, yn dilyn trafodaeth gyda Chymdeithas yr Wreiniad ym Mhrydain Fawr, mae Barnardo's wedi sefydlu **Llinell Gymorth i Wreiniad** i ddarparu gwasanaeth cymorth cyfannol. Mae'r Llinell Gymorth ar gael i unrhyw un sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin. Gallwch gysylltu drwy ffonio 0800 148 8586 neu anfon e-bost at ukrainiansupport@barnardos.org.uk

Bydd llinell gymorth cymorth Barnardo's yn darparu mynediad at gymorth trawma trwy wasanaethau cwnsela a seicotherapi ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd ffoaduriaid yn gallu hunan-atgyfeirio, yn ogystal â chael eu cyfeirio drwy'r llinell gymorth gan weithwyr allweddol, awdurdodau lleol, cydweithwyr iechyd ac addysg. Bydd Barnardo's yn derbyn ac yn sgrinio'r atgyfeiriadau, gan ddyrannu gwasanaethau priodol i ymateb i angen. Rydym hefyd yn arwain **Gwasanaeth Lles Teuluoedd Caerdydd**, sy'n darparu cymorth iechyd meddwl i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y ddinas.



Ariannu Trydydd Sector

Mae cylchoedd ariannu blynyddol a diffyg sicrwydd hirdymor yn cyflwyno heriau ar gyfer cefnogi plant a theuluoedd sydd angen cymorth cyson. Dyma pam yr ydym am i **bob awdurdod lleol ymrwymo i sicrhau bod partneriaid yn y trydydd sector yn cael cyllid mwy sicr a hirdymor**

er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl hynny sydd angen ein gwasanaethau yn cael cymorth cyson. Nid yn unig y mae angen i'r cyllid fod yn fwy hirdymor, mae angen iddo hefyd ystyried chwyddiant a chostau byw. Dylai pob contract felly gael codiad blynyddol o 1.5-2.0%.

Iechyd Meddwl a Llesiant – buddsoddi mewn cymorth i'r teulu cyfan

Ar hyn o bryd, mae Barnardo's Cymru yn cynnig nifer o wasanaethau iechyd meddwl a llesiant, sy'n helpu i gefnogi adferiad a chryfder plant a phobl ifanc. Mae ein gwasanaethau'n seiliedig ar gryfderau ac yn cael eu llywio gan drawma, ac rydym yn teimlo'n angerddol dros sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael y cymorth gorau posibl. Mae Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn chwarae rhan enfawr yn y ffordd y mae ymennydd plentyn yn datblygu a sut mae'n mynd ymlaen i weld ac i brofi'r byd – fel plentyn ac fel oedolyn.

Gall trawma a/neu brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod effeithio ar fywyd cyfan unigolyn, ac mae llawer o oedolion yn dod yn rhieni neu'n gofalu am eraill gyda chefnidir eu hunain o drawma ac effeithiau hirdymor profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod.

Gall rhieni/gofalwyr sydd â phrofiadau o drawma heb eu datrys effeithio ar sut maen nhw fel oedolyn/rhiant. Gall trawma o'r fath gael ei ail-sbarduno gyda phrofiad neu ymddygiad eu plant. Fodd bynnag, er bod ein systemau yn sôn am yr angen am rieni da a dealltwriaeth ar gyfer diogelu

yn y dyfodol, nid ydyn nhw wedi'u sefydlu i ymateb i hyn. Byddai Barnardo's Cymru yn annog awdurdodau lleol i flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau sy'n sicrhau bod rhieni'n cael eu cefnogi yn eu rhinwedd eu hunain, a bod y dulliau hyn yn seiliedig ar drawma, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gallu prosesu eu trawma eu hunain wrth ymateb i anghenion eu plentyn. Mae hyn yn golygu cefnogi'r teulu cyfan sef dull sy'n gallu cyflawni gwell canlyniadau yn ôl ein gwasanaethau.

Sbotolau ar wasanaeth

Mae gwasanaeth [Beyond the Blue](#), sydd wedi'i leoli yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn darparu ystod o ymyriadau therapiwtig a chwnsela i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed, yn ogystal â'u rhieni ar sail unigol, grŵp a theulu. Bydd y gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth sy'n benodol i golled (er enghraifft profedigaeth), rhieni'n gwahanu neu garcharu rhiant. Nod y gwasanaeth yw gwella iechyd emosiynol, llesiant a chryfder unigolion, a'u galluogi i ymdopi'n well â'r straen a'r anawsterau y gallent eu hwynebu.

Buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar

I lawer o blant a phobl ifanc, mae ymyrraeth gynnar yn allweddol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gwasanaethau sy'n darparu cymorth llesiant meddyliol ac emosiynol ar gael yn eang, yn gweithio yn y gymuned ac yn cynnig ystod o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae Barnardo's Cymru yn annog awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar a'i chefnogi lle bynnag y bo modd.

Sbotolau ar wasanaeth

Mae gwasanaeth [Cefnogi Teulu Caban Bach](#) yn darparu cymorth cyfannol i'r teulu

cyfan trwy waith achos unigol a gwaith grŵp gyda'r nod o wella llesiant teuluoedd yn ardal Meirionnydd. Mae'r tîm yn frwdfrydig ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda theuluoedd ag anghenion cymhleth. Mae holl aelodau'r tîm yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r cymorth yn cynnwys rhaglenni magu plant sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel y Blynnyddoedd Rhyfeddol a Chysylltiadau Teuluol, gwaith cydberthnasau cadarnhaol, hunan-barch a magu hyder, gallu ariannol, sgiliau coginio, tylino babanod, ymagwedd gwrthsefyll di-drais ac ymwybyddiaeth ofalgar.

Buddsoddi mewn cymorth teulu cyfan i bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig

I bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, fe wnaeth y pandemig a'r cyfyngiadau symud dilynol greu cyfleoedd i gyflawnwyr gynyddu eu gallu i ynysu a rheoli eu dioddefwyr, er enghraifft trwy ddefnyddio'r cyfyngiadau symud fel esgus i symud yn ôl i gartref y dioddefwr a rheoli symudiadau o fewn y tŷ a'u hatal rhag cysylltu â theulu neu ffrindiau. Mae galwadau i linell gymorth Byw Heb Ofn wedi cynyddu yn sylweddol ers dechrau'r pandemig, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y cynnydd mewn atgyfeiriadau i wasanaethau Barnardo's.

Mae Barnardo's Cymru yn annog awdurdodau lleol i ystyried buddsoddi mewn dulliau teulu cyfan o ymdrin â cham-drin domestig sy'n chwalu'r seilos ac yn darparu cymorth hanfodol i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n oedolion ac yn blant, yn ogystal â gweithio gyda chyflawnwyr i helpu i sicrhau newid diogel a chynaliadwy.



Sbotolau ar wasanaeth

Ers mis Mawrth 2019, mae Barnardo's Cymru wedi darparu gwasanaeth cam-drin domestig i'r teulu cyfan, sef **Agor Drysau Caeedig**. Mae Agor Drysau Caeedig yn gweithio gydag oedolion sy'n ddioddefwyr, plant sy'n ddioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig i gefnogi'r teulu cyfan. Mae'r model Agor Drysau Caeedig, fel y'i disgrifir mewn **gwerthusiad** gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod gweithio gyda holl aelodau'r teulu yn diwallu eu hanghenion yn gynhwysfawr, gan fynd i'r afael ag achosion cam-drin domestig yn ogystal â'r canlyniadau, a fydd yn helpu i sicrhau newid cynaliadwy.

Mae'r Gwasanaeth Agor Drysau Caeedig yn darparu sbectrwm o gymorth yng Nghasnewydd, Torfaen, Sir Fynwy a Blaenau Gwent, sy'n galluogi plant a phobl ifanc i wella yn dilyn eu profiadau o gam-drin domestig, i feithrin cryfder, i wella eu gallu i fod yn rhieni, gan gefnogi newid system i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Rydym yn cydnabod y gall cam-drin domestig fod yn un o lawer o ffactorau risg yng nghartref y teulu, felly cynigir cymorth cyfannol. Ers ei sefydlu, mae Agor Drysau Caeedig wedi cefnogi 395 o blant, 435 o oroeswyr a 268 o gyflawnwyr.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch cysylltwch:

Amy Bainton, Uwch Arweinydd Polisi a Materion Cyhoeddus – Cymru

Amy.Bainton@barnardos.org.uk